# Dogfen Ymgynghori
# Adolygu'r Polisi Gamblo
# Medi 2024

1. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi cyfle i chi gyfrannu at adolygu polisi gamblo Sir Gaerfyrddin. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich sylwadau a'ch syniadau er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnal system drwyddedu effeithiol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

## Cyflwyniad

2. Rhaid i'r polisi cyfredol, a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ym mis Mawrth 2022, gael ei adolygu bob tair blynedd o leiaf er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu barn y gymuned leol a bod yr amcanion statudol yn cael eu cyflawni.

3. Yr adolygiad hwn yw'r cyfle cyntaf y mae trigolion lleol, busnesau, deiliaid trwydded presennol a'u cynrychiolwyr wedi ei gael i wneud sylwadau ffurfiol ar y Polisi ers 2021. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar y 27ain o Medi ac yn dod i ben ar y 10fed o Tachwedd 2024.

4. Mae'r Comisiwn Hapchwarae wedi awgrymu i Awdurdodau Trwyddedu, gan fod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn cynnal adolygiad o'r Ddeddf Gamblo ar hyn o bryd, na ddylid gwneud unrhyw ddiwygiadau sylweddol i Bolisïau Gamblo fel rhan o'r adolygiad cyfredol. Yn hytrach, maent wedi awgrymu bod Awdurdodau Trwyddedu yn aros nes bod adolygiad y DCMS wedi'i gwblhau ac yna'n mynd ati i ddiweddaru eu Polisïau Gamblo yn unol â hynny.

### Swyddogaethau'r Awdurdodau Trwyddedu

5. Mae'r Ddeddf yn golygu bod gan yr awdurdodau trwyddedu nifer o swyddogaethau rheoleiddio pwysig o ran gamblo. Prif swyddogaethau'r awdurdodau yw:

- Trwyddedu safleoedd ar gyfer gweithgareddau gamblo;
- Ystyried hysbysiadau a roddwyd i ddefnyddio safleoedd ar gyfer gamblo am gyfnod dros dro;
- Rhoi hawlenni ar gyfer gamblo a pheiriannau gamblo mewn clybiau a sefydliadau lles glowyr;
- Rheoleiddio gamblo a pheiriannau gamblo ar safleoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol;
- Rhoi hawlenni i ganolfannau adloniant teulu ar gyfer defnyddio peiriannau gamblo penodol lle mentrir llai o arian;
- Rhoi hawlenni ar gyfer gamblo am wobrau;

- Ystyried hysbysiadau o ddefnydd achlysurol ar gyfer betio ar gaeau rasio; a
- Chofrestru loterïau cymdeithasau bychain.

**Trwyddedau safle**

6. Caiff trwyddedau safle eu rhoi gan awdurdodau trwyddedu, a gallant awdurdodi darparu cyfleusterau ar/mewn:

- Safleoedd casino;
- Safleoedd bingo;
- Safleoedd betio, gan gynnwys caeau rasio;
- Canolfannau gamblo i oedolion; a
- Chanolfannau adloniant teulu.

7. Ac eithrio yn achos caeau rasio (lle efallai nad deiliad y cae rasio sy'n meddu ar y drwydded safle yw'r sawl sy'n cynnig cyfleoedd i gamblo), gellir ond rhoi trwyddedau safle i bobl â thrwydded gweithredwr gamblo berthnasol: er enghraifft, i gael trwydded safle bingo, rhaid i'r ymgeisydd feddu ar drwydded gweithredu bingo. Mae modd trosglwyddo trwyddedau safle i rywun arall sy'n meddu ar drwydded weithredu ddilys.

8. Wrth weithredu'r rhan fwyaf o'u swyddogaethau dan Ddeddf Gamblo 2005, mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu a nodir yn Adran 1 y Ddeddf. Mae'r amcanion trwyddedu fel a ganlyn:

- **Atal gamblo rhag arwain at drosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gynnal troseddu;**
- **Sicrhau bod gamblo'n cael ei weithredu mewn ffordd deg ac agored;**
- **Amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu i eraill gamfanteisio arnynt yn sgil gamblo.**

9. Bydd y Comisiwn Hapchwarae yn gyfrifol am roi trwyddedau gweithredu a thrwyddedau personol ar gyfer gweithredwyr gamblo masnachol a staff sy'n gweithio yn y diwydiant. Hefyd, bydd y Comisiwn yn rheoli rheolwyr a hyrwyddwyr rhai loterïau.

10. Mae'r papur ymgynghori hwn wedi ei anelu at drigolion a busnesau lleol, deiliaid trwyddedau presennol a'u cynrychiolwyr. Yn wir, mae'r Cyngor yn awyddus i dderbyn sylwadau pawb sydd â diddordeb yn y mater.

11. Mae'r Cyngor wedi nodi pobl a sefydliadau a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn croesawu sylwadau unrhyw un sydd â diddordeb a dylai derbynwyr deimlo'n rhydd i ddwyn y papur hwn i sylw eraill a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

12. Er mwyn cynnig sylwadau manwl ar y polisi gamblo, efallai y byddai ymatebwyr yn dymuno'n gyntaf ddarllen y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae i awdurdodau lleol o dan y Ddeddf, yn ogystal â'r Polisi Gamblo presennol a'r Ddeddf Gamblo ei hun. Gallwch ddarllen y dogfennau hyn ar wefan y Cyngor: [http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori-a-pherfformiad/](http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori-a-pherfformiad/)

Hefyd, gellir cael copïau papur o'r dogfennau hyn gan yr Adain Drwyddedu.

## Ymateb i'r Ymgynghoriad

13. Mae eich barn chi'n bwysig i'r Cyngor wrth iddo geisio llunio polisi gamblo teg a chymesur. **A fyddech cystal â sicrhau ein bod yn cael eich sylwadau erbyn 10fed o Tachwedd 2024, er y byddem yn ddiolchgar pe gallem eu cael cyn hynny.**

14. I gynorthwyo ymatebwyr, rydym wedi creu arolwg ar-lein, sy'n cynnwys cwestiynau sy'n gofyn am ymateb i faterion penodol. Rhoddir gwybod i gyfranogwyr fod modd lanlwytho gwybodaeth atodol megis ystadegau a datganiadau ategol fel atodiad i'r arolwg ar ffurf Word neu PDF.

    Os hoffech gael copi caled o'r holiadur cysylltwch ag Emyr Jones. Mae ei fanylion cyswllt ar gael isod.

    Yn ogystal, gall y ddogfen ymateb gael ei hanfon atom drwy e-bost, diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

15. Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn ystod y broses o adolygu'r polisi. Yn anffodus ni fydd yn bosibl rhoi ateb manwl i bob un sy'n ymateb i'r ymgynghoriad.

16. Manylion Cyswllt

**Emyr Jones**
**Arweinydd Trwyddedu**
**Tai a Diogelu'r Cyhoedd**
**Yr Adran Cymunedau**
**Cyngor Sir Caerfyrddin**
**3 Heol Spilman**
**Caerfyrddin**
**SA31 1LE**

**Neu anfonwch neges e-bost at:** diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

## Diolch ichi am dreulio amser yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

17. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y ddogfen ymgynghori neu'r Ddeddf Gamblo, cysylltwch â'r Adain Drwyddedu drwy ffonio 01267 228717. Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori-a-pherfformiad/

**Os hoffech gael y ddogfen hon ar ffurf print bras, Braille neu dâp sain, ffoniwch:**
**☎01267 228717**